OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 2709

# Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014

## RHAN 3

## CATEGORÏAU O AELODAU

**Rhiant-aelodau**

**9.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "rhiant-aelod" ("*parent member*") yw—

(a) person sydd wedi ei ethol yn aelod yn unol â pharagraffau 2 i 6 o Atodlen 1 gan rieni disgyblion cofrestredig yn yr uned (neu, yn ôl y digwydd, ym mhob un o'r unedau yn y grŵp o unedau), ac sy'n rhiant i ddisgybl cofrestredig yn yr uned (neu, yn ôl y digwydd, unrhyw uned yn y grŵp o unedau) ar yr adeg pan etholir y person hwnnw; neu

(b) person a benodir yn rhiant-aelod yn unol â pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 1.

(2) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei ethol neu ei benodi yn rhiant-aelod os yw'r person hwnnw—

(a) yn aelod etholedig o'r awdurdod; neu

(b) wedi ei anghymhwyso o dan reoliad 10(2).

(3) Nid yw person wedi ei anghymhwyso rhag parhau i ddal swydd rhiant-aelod pan fo'r person hwnnw yn peidio â bod yn rhiant i ddisgybl cofrestredig yn yr uned (neu, yn ôl y digwydd, unrhyw uned yn y grŵp o unedau) neu'n methu â bodloni unrhyw un neu ragor o'r gofynion a nodir ym mharagraff 8 o Atodlen 1 oni bai bod y person hwnnw wedi ei anghymhwyso fel arall o dan y Rheoliadau hyn.

**Staff-aelodau**

**10.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "staff-aelod" ("*staff member*") yw—

(a) yr athro neu'r athrawes â gofal am uned (neu, yn achos grŵp o unedau, yr athro neu'r athrawes â gofal am bob un o'r unedau); neu

(b) person sydd wedi ei ethol yn aelod yn unol â pharagraffau 9 i 11 o Atodlen 1 gan bersonau sy'n cael eu talu i weithio yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr uned (neu, yn ôl y digwydd, unrhyw uned yn y grŵp o unedau) ac sy'n berson sy'n gweithio felly ar yr adeg pan etholir y person hwnnw.

(2) Nid yw person sy'n gymwys i'w ethol yn staff-aelod ac sy'n cael ei dalu i weithio yn yr uned honno am fwy na 500 awr ym mhob blwyddyn academaidd yn gymwys i'w ethol neu ei benodi yn aelod o dan reoliad 9, 11, 12 neu 13.

(3) Pan fydd staff-aelod yn peidio â gweithio yn yr uned honno, mae i'w anghymhwyso rhag parhau i ddal ei swydd fel aelod o'r fath.

**Aelodau a benodir gan yr awdurdod**

**11.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "aelod a benodir gan yr awdurdod" ("*authority appointed member*") yw person sydd wedi ei benodi yn aelod gan yr awdurdod (ac eithrio staff-aelod, aelod cymunedol, neu noddwr-aelod a benodir gan yr awdurdod o dan reoliad 5(b)).

(2) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi yn aelod a benodir gan yr awdurdod os yw'r person hwnnw yn gymwys i fod yn staff-aelod.

**Aelodau cymunedol**

**12.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "aelod cymunedol" ("*community member*") yw person sydd wedi ei benodi yn aelod gan y pwyllgor (neu gan yr awdurdod o dan reoliad 5(b)) ac sy'n—

(a) cynrychiolydd ysgol;

(b) person sy'n byw neu'n gweithio yn y gymuned a wasanaethir gan yr uned (neu, yn ôl y digwydd, y grŵp o unedau); neu

(c) person sydd, ym marn y pwyllgor (neu, yn achos aelod cymunedol a benodir o dan reoliad 5(b), yr awdurdod), wedi ymrwymo i lywodraethu da ac i lwyddiant yr uned (neu, yn ôl y digwydd, y grŵp o unedau).

(2) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi yn aelod cymunedol os yw'r person hwnnw—

(a) yn gymwys i fod yn staff-aelod o'r pwyllgor; neu

(b) yn aelod etholedig o'r awdurdod.

**Noddwr-aelodau**

**13.** Yn y Rheoliadau hyn ystyr "noddwr-aelod" ("*sponsor member*") yw person sydd wedi ei enwebu'n noddwr-aelod ac sydd wedi ei benodi felly gan y pwyllgor yn unol â pharagraffau 12 i 14 o Atodlen 1 (neu sydd wedi ei benodi'n noddwr-aelod gan yr awdurdod o dan reoliad 5(b)).